**Atodiad 2 – Appedix 2**

**Addasiadau i'r Cyfansoddiad – Amendments to the Constitution**

| Rhan 4 Rheolau Sefydlog Cyngor | Part 4 Council Standing Orders |
| --- | --- |
| **4.16 Cworwm** | **4.16 Quorum** |
| 4.16.1 Cworwm cyfarfod fydd chwarter y nifer gyfan o Aelodau. Yn ystod unrhyw gyfarfod, os bydd y Cadeirydd yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio yn syth. Bydd busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried ar amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried yn y cyfarfod cyffredin nesaf. **Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad y cyfarfod**. | 4.16.1 The quorum of a meeting will be one quarter of the whole number of Members. During any meeting if the Chair counts the number of Members present and declares there is not a quorum present, then the meeting will adjourn immediately. Remaining business will be considered at a time and date fixed by the Chair. If he/she does not fix a date, the remaining business will be considered at the next ordinary meeting. **Presence will include presence through electronic means which allow the member to hear and speak at the meeting.** |
| **4.16.2 Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth electroneg (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol** | **4.16.2 The failure of any technological provision whether that leads to a partial or complete loss of contact shall not invalidate any part of the deliberations or affect any vote taken. The Chairman may postpone the meeting if they deem that appropriate.** |
| ~~**4.17 Presenoldeb o Bell**~~ | ~~**4.17 Remote Attendance**~~ |
| ~~4.17.1 Darperir cyfarpar fideo-gynadledda yn swyddfeydd y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli ac yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yng Nghaernarfon i ganiatáu i aelodau ymuno â phwyllgorau heb fod yn bresennol yn ystafell y cyfarfod ("ymuno o bell"), ar yr amodau canlynol.~~ | ~~4.17.1 Video-conferencing facilities are provided at the Council Offices in Dolgellau and Pwllheli and in the Dafydd Orwig Chamber and Hywel Dda Chamber in Caernarfon to allow members to attend meetings without being present in the meeting room ("remote attendance"), under the following conditions.~~ |
| ~~4.17.2 Dim ond yn y pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Iaith y bydd modd i aelod ymuno o bell.~~ | ~~4.17.2 Members will only be able to attend remotely at meetings of the [scrutiny committees, the Democratic Services Committee and Language Committee.~~ |
| ~~4.17.3 Rhaid i aelod sy'n dymuno ymuno o bell mewn pwyllgor roi o leiaf 5 4 niwrnod o rybudd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. O dderbyn rhybudd yn unol â'r rheol hon bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud y~~ | ~~4.17.3 Members wishing to attend remotely must give at least 4 days notice of their wish to the Head of Democratic Services. On receiving such a notice, the Head of Democratic Services will make the necessary arrangements (including the provision of translation) to allow the member to attend remotely.~~ |

| | |
|---|---|
| ~~trefniadau angenrheidiol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth gyfieithu) i ganiatáu i'r aelod ymuno o bell.~~<br><br>~~4.17.4 Ni fydd cworwm yn y cyfarfod ar unrhyw adeg pan fydd y nifer o aelodau sy'n mynychu yn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod yn llai na [30%]* o'r holl aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod (boed yn yr ystafell gyfarfod neu'n ymuno o bell).~~<br><br>~~4.17.5 Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.~~ | ~~4.17.4 At any time, there will be no quorum at the meeting if the number of members in the room where the meeting is held is less than [30%] of all the members attending the meeting (whether in the room or attending remotely).~~<br><br>~~4.17.5 The failure of any technological provision whether that leads to a partial or complete loss of contact shall not invalidate any part of the deliberations or any vote taken. The Chairman may postpone the meeting if they deem that appropriate.~~ |
| **4.18.6 <u>Cofnod o Gwestiynau</u>**<br><br>(a) Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cofnodi pob cwestiwn mewn modd sydd ar gael i'r cyhoedd ei archwilio a bydd yn anfon copi o'r cwestiwn ar unwaith at y Cynghorydd y'i cyfeirir ato. Bydd cwestiynau a wrthodwyd yn cynnwys y rhesymau dros eu gwrthod.<br>(b) Bydd copïau o'r holl gwestiynau yn cael eu dosbarthu i bob Cynghorydd a byddant ar gael i'r cyhoedd sy'n ~~mynychu'r~~ **cael mynediad  cyfarfod.** | **4.18.6 <u>Record of Questions</u>**<br><br>(a) The Head of Democratic Services will enter each question in a format open to public inspection and will immediately send a copy of the question to the Councillor to whom it is to be put. Rejected questions will include reasons for rejection.<br><br>(b) Copies of all questions will be circulated to all Councillors and will be made available to the public ~~attending~~ **accessing** the meeting. |
| **Part 5 Cabinet**<br>**5.8.7 <u>Cworwm</u>**<br>(a) Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Cabinet fydd chwarter yr aelodau gan gynnwys yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd.<br><br>(b) Y cworwm ar gyfer cyfarfod un o bwyllgorau'r Cabinet fydd dau.<br><br>**Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.** | **Rhan 5 Cabinet**<br>**5.8.7 <u>Quorum</u>**<br>(a) The quorum for a meeting of the Cabinet shall be one quarter of the members including the Leader or Deputy Leader.<br><br>(b) The quorum for a meeting of a committee of the Cabinet shall be 2.<br><br>**Presence shall include presence through electronic means which allow the member to hear and speak at the meeting.** |

| | |
|---|---|
| **Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y sawl sydd yn llywyddu ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.** | **The failure of any technological provision whether that leads to a partial or complete loss of contact shall not invalidate any part of the deliberations or affect any vote taken. Whoever is presiding may postpone the meeting if they deem that appropriate.** |
| **Rhan 7 Craffu**<br>**7.17 <u>Cworwm</u>**<br>Bydd y cworwm ar gyfer Pwyllgor Craffu yn chwarter aelodau'r pwyllgor.<br><br>**Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.**<br><br>**Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol**. | **Part 7 Scrutiny**<br>**7.17 <u>Quorum</u>**<br>The quorum for Scrutiny Committees shall be one quarter of the Members of the committee.<br><br>**Presence will include presence through electronic means which allow the member to hear and speak at the meeting.**<br><br>**The failure of any technological provision( whether that leads to a partial or complete loss of contact )shall not invalidate any part of the deliberations or affect any vote taken. The Chairman may postpone the meeting if they deem that appropriate**. |
| **Ran 8 Pwyllgor Safonau**<br><br>**8.3 <u>Cworwm</u>**<br>Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn gwneud cworwm dim ond pan fydd:<br><br>8.3.1 o leiaf 3 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, yn bresennol; ac<br><br>8.3.2 o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol. | **Rhan 8 Standards Committee**<br><br>**8.3 <u>Quorum</u>**<br>A meeting of the Standards Committee shall only be quorate when:<br><br>8.3.1 at least 3 Members, including the Chairperson, are present; and<br><br>8.3.2 at least half the Members present (including the Chairperson) are Independent Members. |

| | |
|---|---|
| **Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.**<br><br>**Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol**. | **Presence will include presence through electronic means which allow the member to hear and speak at the meeting.**<br><br>**The failure of any technological provision( whether that leads to a partial or complete loss of contact )shall not invalidate any part of the deliberations or affect any vote taken. The Chairman may postpone the meeting if they deem that appropriate**.<br>. |
| **Rhan 9 Pwyllgorau**<br><br>**9.12.4 Cworwm**<br><br>(1) Yn ddarostyngedig i (2) isod ni chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod o bwyllgor nac is-bwyllgor oni bai fod o leiaf chwarter cyfanrif aelodau pleidleisiol y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, fel y bo'n briodol, yn bresennol ac ni chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw achos onid oes o leiaf tri aelod pleidleisiol yn bresennol ac eithrio yn achos is-bwyllgor sydd yn cynnwys llai na 5 aelod, pan fydd y cworwm yn ddau aelod â phleidlais.<br><br>(2) Ni chaniatier trin busnes mewn unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio onibai fod o leiaf hanner cyfanrif nifer aelodau pleidleisiol y Pwyllgor yn bresenol, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.<br><br>**(3) Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod.**<br><br>(4) **Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol**. | **Part 9 Committees**<br><br>**9.12.4 Quorum**<br><br>(1) Subject to (2) below business shall be transacted at any meeting of a committee or sub-committee unless at least one quarter of the number of voting members of the committee or sub-committee, as the case may be, are present, provided that in no case shall any business be transacted unless at least three voting members are present except in the case of a sub-committee comprising less than five members, when the quorum shall be two voting members.<br><br>(2) No business shall be transacted at any meeting of the Planning Committee unless at least half of the number of voting members of the Committee rounded to the nearest whole number are present.<br><br>**(3) Presence will include presence through electronic means which allow the member to hear and speak at the meeting.**<br><br>(4) **The failure of any technological provision ( whether that leads to a partial or complete loss of contact )shall not invalidate any part of the deliberations or affect any vote taken. The Chairman may postpone the meeting if they deem that appropriate** |

| **Rheolau Sefydlog Mynediad i Wybodaeth** | **Access to Information Procedure Rules** |
|---|---|
| 14.3 Hawliau i Fynychu Cyfarfodydd<br>Caiff aelodau'r cyhoedd gael ~~**mynychu**~~ **mynediad** i bob cyfarfod yn amodol ar yr eithriadau i'r rheolau hyn yn unig . | 14.3 Rights to Attend Meetings<br>Members of the public may ~~**attend**~~ **access** all meetings subject only to the exceptions in these rules. |